Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Barry Liles
Pennaeth
Coleg Sir Gâr
Campws y Graig
Heol Sandy
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 4DN

Awst 2014

Annwyl Mr Liles

**Adroddiad Estyn ar Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer Coleg Sir Gâr**

Yn dilyn yr ymweliad â'ch sefydliad ar 23 i 25 Mehefin 2014 ynghylch yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad, mae'r llythyr hwn yn adroddiad blynyddol sydd wedi'i seilio ar ddeilliannau'r ymweliad hwnnw. Cyhoeddir y llythyr ar wefan Estyn.

Bu Mark Evans AEM ac Alun Connick AEM yn arfarnu perfformiad presennol y sefydliad ac yn adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion sy'n deillio o arolygiadau blaenorol. Cynhaliont drafodaethau gyda'r pennaeth ac uwch reolwyr, tiwtoriaid, dysgwyr ac aelodau o'r corff llywodraethol. Buont yn craffu ar ddogfennau a thystiolaeth arall. Hefyd, buont yn ystyried ansawdd yr addysgu a'r dysgu trwy deithiau dysgu a chraffu ar broses y darparwr ar gyfer arsylwi ar ddosbarthiadau.

Ar ddiwedd yr ymweliad, adroddodd yr arolygwyr eu canfyddiadau i bennaeth y sefydliad ac i aelodau eraill yr uwch dîm arwain.

**Canlyniad yr ymweliad gan yr arolygwyr cyswllt**

Ers yr arolygiad ym Mai 2013, mae'r coleg wedi gweithio'n dda i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan y tîm arolygu. Mae effaith gadarnhaol y gwaith datblygu a wnaed i'w gweld mewn agweddau allweddol ar waith y coleg a gwelliannau mewn rhai meysydd.

**1 Deilliannau a safonau**

Mae'r coleg yn recriwtio dysgwyr o ardal sy'n cynnwys llawer o wardiau difreintiedig a daw bron hanner ei ddysgwyr o ardaloedd â mynegai difreintedd uchel. Mae gan lawer o'r dysgwyr hyn fedrau sylfaenol gwael adeg mynediad. Mae gan y coleg bolisi cynhwysol ac mae'n annog dysgwyr i symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch, ac mae'n

cynnig cymorth ychwanegol i lawer o ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau Safon Uwch a Lefel 3 eraill er mwyn eu helpu i lwyddo.  Mae'r coleg wedi cynnal ei dueddiadau o ran perfformiad dros y tair blynedd diwethaf ac wedi llwyddo i wella cyfraddau cwblhau gan bum pwynt canran.  Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad wedi llithro ychydig dros yr un cyfnod.  Mae'r cyfraddau llwyddo mewn rhyw draean o feysydd dysgu islaw cymaryddion cenedlaethol.

Ar draws y coleg, mae tua 44% o'r ymrestriadau yn rhai ar gyrsiau hir.  At ei gilydd, mae perfformiad y coleg yn 2012-2013 yn y dangosyddion perfformiad allweddol, ar gyfer cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant cyffredinol, yn cyfateb i gyfartaledd y sector. Dyma welliant mewn cyfraddau llwyddo a chwblhau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth yn parhau mewn perfformiad rhwng gwahanol feysydd dysgu a meysydd pwnc.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar gyrsiau byr yn cwblhau eu rhaglenni dysgu'n llwyddiannus.

## 2 Medrau hanfodol

Mae'r coleg yn defnyddio deilliannau asesiadau cychwynnol yn dda i nodi'r dysgwyr hynny y mae angen profion diagnostig pellach arnynt ac mae'n cyflwyno cymorth priodol.  Mae'r coleg yn ymrestru nifer o ddysgwyr â medrau llythrennedd a rhifedd cymharol wael.  Mae strategaethau da i gefnogi'r dysgwyr hyn, gan gynnwys sesiynau ar wahân, dosbarthiadau arbenigol i roi cymorth â medrau sylfaenol a chymorth integredig i ddysgwyr targedig mewn dosbarthiadau galwedigaethol ac academaidd. Yn ogystal, mae cyfleusterau galw heibio da i ddysgwyr a all fod angen help i ddatblygu medrau hanfodol a chaiff dysgwyr wybodaeth dda am sut gallant gael at help ychwanegol.

Mae cyfraddau llwyddo dysgwyr mewn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn dda at ei gilydd, ac wedi gwella rhwng 2011-2012 a 2012-2013.  Bellach, mae'r cyfraddau uwchlaw cyfartaledd y sector ar Lefelau 1 a 2.  Ar Lefel 3, mae'r cyfraddau llwyddo ar gyfer medrau hanfodol yn parhau naw pwynt canran islaw'r cymharydd cenedlaethol, er eu bod yn cael eu cyflwyno gan yr un tiwtoriaid.  Mae hyn o ganlyniad i'r polisi derbyn cynhwysol i gynnig mynediad agored i gyrsiau Lefel 3.

Mae'r coleg yn mesur llwyddiannau dysgwyr o ran datblygu eu medrau sylfaenol a hanfodol.  Mae wrthi'n gweithredu strategaeth i'w alluogi i ddadansoddi data'r coleg cyfan ac arfarnu'r cynnydd a wna dysgwyr wrth gyflawni amcanion llythrennedd a rhifedd yn eu cynlluniau dysgu unigol.

## 3 Addysgu ac asesu

Mae'r coleg wedi cryfhau ei ffocws ar wella ansawdd addysgu ac asesu. Cydnabuwyd hyn yn ddiweddar pan dderbyniodd y coleg wobr addysgu a dysgu flynyddol Colegau Cymru ar gyfer ei brosiect 'arloesi'.  Roedd hyn yn cynnwys defnyddio amrywiaeth gynhwysfawr o strategaethau a mentrau i ddatblygu a gwella addysgu ar draws y coleg. Mae strwythur atebolrwydd priodol i wella a chefnogi addysgu ac asesu.  Mae gan staff y coleg, gan gynnwys uwch reolwyr a mentoriaid

dysgu, rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer herio a chynorthwyo staff addysgu i wella'u harfer.

Ar draws y coleg, mae nodi a rhannu arfer addysgu da yn gwella. Mae gan arweinwyr y cwricwlwm ffocws clir ar wella addysgu ac asesu yn eu meysydd dysgu. Caiff ansawdd yr addysgu ac effaith y mentora a'r cymorth eu monitro fel mater o drefn ar draws y coleg drwy asesiadau arsylwadau addysgu.

## 4 Y cwricwlwm

Mae'r coleg yn cyflwyno ystod eang o gyrsiau sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned ehangach. Mae'n defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn dda i lywio cynllunio'r cwricwlwm. Mae uno â Grŵp Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi galluogi cwricwlwm ehangach i ddysgwyr ac wedi ymestyn yn sylweddol y cyfleoedd dilyniant sydd ar gael iddynt. Mae'r coleg yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion uwchradd lleol i gynnig cyrsiau Safon Uwch ar y cyd ac ystod dda o raglenni galwedigaethol. Hefyd, mae'n gweithio'n dda gyda diwydiannau lleol i gynnig ystod briodol o raglenni hyfforddi i fodloni eu hanghenion. Gwneir defnydd da o'r cysylltiadau hyn i sicrhau lleoliadau profiad gwaith i ddysgwyr ac i gael gwybodaeth am anghenion hyfforddi diwydiant.

## 5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth wedi sefydlu cyfeiriad strategol clir ar gyfer y coleg. Mae wedi arwain y coleg i weithio mewn grŵp gyda gweledigaeth a nodau clir, ond gan gadw hunaniaeth sefydledig y coleg. Mae'n cael cefnogaeth dda gan uwch arweinwyr a llywodraethwyr. Mae'r uwch dîm rheoli yn grŵp trefnus sy'n gweithio'n effeithiol fel tîm. Mae'r bwrdd llywodraethwyr yn wybodus, mae ganddo weledigaeth glir ac mae'n darparu lefelau da o gymorth a her strategol. Mae cynllunio strategol ar draws y coleg yn gynhwysfawr a manwl. Mae'r uwch dîm wedi gweithio'n effeithiol i uno'r coleg â Grŵp Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae uwch reolwyr wedi sicrhau bod staff ar bob lefel ar draws y coleg yn deall manteision gweithio mewn grŵp. Hefyd, mae rheolwyr canol yn cydweithio'n dda i weithredu nodau'r coleg. Mae ganddynt dargedau perfformio clir gyda phwyslais ar yr angen i wella safonau dysgwyr ac ansawdd yr addysgu a'r asesu.

Mae cyfathrebu ar bob lefel ar draws y coleg yn dda; caiff staff eu hysbysu'n dda am ddatblygiadau ac ystod eang o wybodaeth. Mae data cadarn ar berfformiad ar gael i'r holl reolwyr a staff ei weld a chaiff y data hwn ei fonitro a'i adolygu yn erbyn targedau fel mater o drefn. Mae gan y coleg strategaeth uchelgeisiol o ran datblygu'r ystâd, wedi'i seilio ar weledigaeth glir i ddatblygu amgylchedd dysgu yn y coleg sy'n briodol i anghenion dysgwyr yn y dyfodol.

## 6 Arweinyddiaeth a rheolaeth (sicrhau ansawdd)

Mae proses sicrhau ansawdd fanwl a chynhwysfawr gan y coleg. Mae ganddo gynlluniau gwella a strategaethau clir ar gyfer meysydd allweddol o'r ddarpariaeth. Mae wedi parhau i ddatblygu ei weithdrefnau sicrhau ansawdd i fodloni ei nodau gan gynnwys, er enghraifft, gwella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn ennill eu cymwysterau arnynt a pharhau i wella safon yr addysgu a'r asesu. Mae gan y coleg strwythur

rheoli clir i oruchwylio pob agwedd ar sicrhau ansawdd cyrsiau ac mae ganddo weithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau gwelliannau ar lefel cwrs. Mae gan reolwyr y cwricwlwm ddealltwriaeth dda o'u cryfderau a'u meysydd i'w gwella yn y meysydd pwnc y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae ganddynt dargedau clir a, lle bo'r angen, cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella. Caiff ansawdd yr addysgu a'r dysgu ei fonitro fel mater o drefn ac mae systemau ar waith i nodi tanberfformiad. At ei gilydd, mae gan weithdrefnau sicrhau ansawdd y coleg ffocws clir ar olrhain cynnydd dysgwyr, gwella cyrhaeddiad a gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu.

## 7 Crynodeb o'r cynnydd o ran yr argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad Mai 2013

At ei gilydd, mae'r coleg wedi gwneud cynnydd da yn mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad arolygu diwethaf a wnaed ym Mai 2013.

Mae'r coleg wedi canolbwyntio'n gryf ar wella addysgu a dysgu ac mae hyn wedi effeithio'n gadarnhaol ar ansawdd a safonau. Mae ganddo fentrau da ar waith i gryfhau ymhellach allu dysgwyr i ddefnyddio a datblygu eu medrau Cymraeg.

## 8 Arall

### Partneriaethau

Yn y grwpiau clwstwr, mae cysylltiadau cryf rhwng ysgolion a'r coleg. Mae'r rhain yn cydweithio'n agos i gynnig ystod eang o opsiynau i ymadawyr ysgol. Er enghraifft, mae gweithio'n dda mewn partneriaeth yn y rhwydwaith wedi arwain at ddatblygu uned adeiladu yn gysylltiedig â chyflogwr lleol. Ar draws yr ardal a wasanaethir gan y coleg, mae staff yn cyflwyno addysg alwedigaethol i fwy na 1,000 o ddisgyblion ysgol sy'n mynychu'r coleg neu sy'n cael addysg gan staff y coleg yn eu hysgolion. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac mae'n amrywio o raglenni cyn mynediad i gyrsiau Lefel 3.

Mae gan y coleg gynrychiolaeth ar banel Menter Mynediad Ieuenctid sy'n cynnal cynadleddau achos i ystyried a chynllunio'r opsiwn mwyaf priodol i ddysgwyr sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, hyfforddiant neu waith. Ceir enghreifftiau da o'r coleg yn galluogi'r dysgwyr hyn i fanteisio ar gyrsiau blasu a darpariaeth alwedigaethol sy'n eu hannog i ail-ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant a gwneud cynnydd ynddynt.

Mae'r coleg wedi cynnal ymchwil ddefnyddiol i'r medrau y mae ar gyflogwyr lleol eu heisiau, a defnyddiwyd hyn yn dda i lywio cynllunio darpariaeth gyda darparwyr addysg a hyfforddiant eraill i leihau nifer y rhai nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu waith.

Hefyd, mae'r coleg yn cymryd rhan mewn Grŵp Pontio 14-16 oed sy'n cydlynu gweithgareddau i helpu dysgwyr i fanteisio ar opsiynau ehangach. Mae rhannu gwybodaeth rhwng ysgolion a'r coleg yn cynyddu ac fe wnaeth rhai ysgolion, sef ysgolion partner 11-16 yn bennaf, rannu gwybodaeth ddefnyddiol am ddisgyblion gyda'r coleg y llynedd. Eleni, maent yn bwriadu rhoi gwybodaeth fanylach i'r coleg am gynnydd academaidd eu dysgwyr, eu canlyniadau Medrau Sylfaenol a'u sgorau

CAT. Caiff gwybodaeth am ddysgwyr mwy abl a dawnus ei rhannu a'i defnyddio i ddatblygu diwrnodau hyfforddiant arweinyddiaeth ar eu cyfer. Mae lle o hyd i gynyddu'r graddau y mae ysgolion yn darparu gwybodaeth am ddysgwyr i sicrhau bod pontio o'r ysgol i'r coleg yn cael ei reoli'n llwyddiannus.

**Cymraeg**

Mae'r coleg yn gwneud cynnydd da o ran galluogi ac annog dysgwyr i gwblhau mwy o'u dysgu a'u hasesu ffurfiol yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Mae meysydd dysgu amaeth a chrefftau coed wedi arwain y ffordd o ran cynnal a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y coleg. Mae'r coleg yn annog dysgwyr mewn meysydd galwedigaethol allweddol, fel Trin Gwallt a Harddwch, Busnes, Gwasanaethau Cyhoeddus, Gofal, Chwaraeon, Celf a Thechnoleg Cerddoriaeth i ymgymryd â chyrsiau datblygu iaith achrededig. Mae wedi cryfhau'r adnoddau staffio i gyflwyno cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn rhai meysydd galwedigaethol sydd wedi cael blaenoriaeth, lle y nododd fod y Gymraeg yn gwella cyflogadwyedd dysgwyr. Mewn ychydig feysydd, mae wedi gwella rhagolygon dysgwyr i fynd ymlaen i addysg uwch cyfrwng Cymraeg hefyd.

Mae'r coleg wedi cryfhau ei ymdrechion i godi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r Gymraeg a diwylliant Cymru ac i wella'u symbyliad i ddatblygu eu medrau iaith. Mae cyflwyno'r fenter 'Cymraeg yn Gyntaf' wedi annog staff i sgwrsio â dysgwyr yn Gymraeg yn ystod cyfnodau sefydlu ac i ddefnyddio'r iaith yn achlysurol yn y coleg. Mae ychydig ddysgwyr yn ymgymryd ag asesu cychwynnol trwy gyfrwng y Gymraeg, ond nid oes gan y coleg ddull systematig o asesu lefel medrau Cymraeg dysgwyr, a allai lywio cynllunio a'i alluogi i dargedu a chefnogi datblygiad yr iaith yn well.

Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio Cymraeg yn achlysurol mewn dosbarthiadau, ac yn y pum mlynedd diwethaf, gwelwyd cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd ag asesu yn ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cwblhaodd 92 o ddysgwyr Fedr Hanfodol Cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn 2010 i 2011, a 72 yn 2011 i 2012. Mae llawer o enghreifftiau o ddysgwyr yn defnyddio Cymraeg mewn lleoliadau anffurfiol ar draws y coleg. Mae dysgwyr o'r farn bod y coleg yn annog myfyrwyr i ddatblygu balchder yn yr iaith a bod gallu da ganddynt i droi at gymorth i ddatblygu eu medrau iaith eu hunain ymhellach.

Mewn ystafelloedd dosbarth, mae llawer o arddangosiadau sy'n dathlu ac yn codi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r Gymraeg ac o ddiwylliant ac economi Cymru. Mae llawer o ddysgwyr yn ymwybodol o fentrau a digwyddiadau y mae'r coleg yn eu cynnal i godi ymwybyddiaeth ac mae grŵp o ddysgwyr yn cynhyrchu cylchgrawn Cymraeg o safon uchel.

**Llais y dysgwr**

Mae'r coleg yn defnyddio ystod briodol o wybodaeth o holiaduron llais y dysgwr ac arolygon eraill i wella'r profiad dysgu ac i lywio'r gwaith o gynllunio a datblygu'r ddarpariaeth.

Cwblhaodd 2,312 o ddysgwyr yn y coleg arolwg llais y dysgwr yn 2014. O'r rhain, roedd 1,963 yn ddysgwyr amser llawn. Mae hyn gyfwerth ag oddeutu 85% o gyfanswm nifer y dysgwyr sy'n mynychu'r coleg. Mae 34% o ymatebwyr o'r farn bod y coleg yn dda iawn at ei gilydd, sy'n unol â chyfartaledd y sector. Mae 47% arall o'r farn bod y coleg yn dda; mae hyn uwchlaw cyfartaledd y sector, sef 43%. At ei gilydd, mae 81% o'r farn bod y coleg yn dda neu'n well ac mae hyn dri phwynt canran uwchlaw cyfartaledd y sector. Dywed 88% o ymatebwyr fod eu cwrs yn well na'r disgwyl neu fel yr oeddent yn ei ddisgwyl. Mae hyn un pwynt canran uwchlaw cyfartaledd y sector. Cafwyd yr ymateb cryfaf yn arolwg llais y dysgwr i'r addysgu a'r hyfforddiant yn y coleg, gyda sgôr o 45%, sef un pwynt canran uwchlaw cyfartaledd y sector.

**Uno â Grŵp y Drindod Dewi Sant**

Mae'r coleg wedi gwneud cynnydd da wrth uno â Grŵp Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae wedi gweithio'n dda i sicrhau bod dysgwyr wedi elwa ar yr uno, trwy ehangu ystod y cyrsiau sydd ar gael iddynt a chyflwyno rhaglenni o Lefel Mynediad i addysg uwch yn y rhanbarth lleol. Mae gan uwch reolwyr a staff ar bob lefel agwedd gadarnhaol at yr uno ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cydnabod manteision gweithio mewn grŵp.

Mae'r uno wedi gwella'r arbenigedd sydd ar gael i'r coleg ac wedi ymestyn yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu. Mae'r coleg wedi sicrhau bod staff ar bob lefel yn llwyr ymwybodol o ddatblygiadau ac yn rhan o'r broses gweithio mewn grŵp. Mae gweithio ar y cyd wedi gwella'n sylweddol y cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr fynd o raglenni Lefel 1 i raglenni addysg uwch yn yr un rhanbarth daearyddol.

Arolygwyd y coleg ddiwethaf ym Mai 2013 ac mae wedi gwneud cynnydd da yn bodloni'r argymhellion yn yr adroddiad arolygu. Mae gan y coleg gynlluniau a strategaethau clir ar gyfer gwella. Mae arolygwyr yn cymeradwyo'r blaenoriaethau hyn a bydd arolygwyr yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol trwy eu rôl gyswllt â'r sefydliad.

**Argymhellion**

A1 Gwella cyfraddau llwyddo a chyrhaeddiad
A2 Mynd i'r afael â'r anghysondebau mewn perfformiad ar draws meysydd dysgu a meysydd pwnc

**Y camau nesaf**

Bydd Mark Evans AEM ac Alun Connick AEM yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol trwy eu rôl gyswllt â'r coleg.

Yn gywir

**Lin Howells**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol